**Rhif: 5**

| | |
| --- | --- |
| **Cais Rhif:** | **C23/03/TP** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **23/11/2023** |
| **Math y Cais:** | **Coed** |
| **Cymuned:** | **Bangor** |
| **Ward:** | **Canol Dref** |
| **Bwriad:** | **Coedlan gymysg gyda choed aeddfed** |
| **Lleoliad:** | **Parc y Coleg, Ffordd Deiniol, Bangor, Gwynedd, LL57 2TQ** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **I GADARNHAU'R GORCHYMYN DIOGELU COED HEB NEWIDIADAU** |

1. **CEFNDIR:**

1.1 Mae’r adroddiad hwn ar gyfer ystyried a ddylid cadarnhau Gorchymyn Diogelu Coed. Mae gan awdurdodau lleol bŵer cyffredinol i wneud Gorchymyn Diogelu Coed (TPO) os yw’n ymddangos ei bod yn fuddiol gwneud hynny o safbwynt amwynder.

1.2 Mae’r hawl i wneud gorchymyn diogelu coed wedi ei ddirprwyo i swyddogion o fewn y Gwasanaeth Cynllunio. Fodd bynnag, pan dderbynnir gwrthwynebiadau i’r gorchymyn, mae’n briodol cyflwyno’r gorchymyn i’r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad os dylid ei gadarnhau neu beidio.

1.3 Rhoddwyd Gorchymyn Diogelu Coed Dros Dro (“y Gorchymyn”) ar ddwy goeden unigol, 5 grŵp o goed, ac 1 coedir yn y lleoliad a ddangosir ar y cynllun amgaeedig ar y 23 Tachwedd 2023 yn dilyn asesiad o'r safle gan Wasanaeth Bioamrywiaeth y Cyngor. Gwnaethpwyd asesiad o’r coed drwy ddefnyddio sustem TEMPO ( Tree Evaluation Method for Preservation Orders ) ac fe sgoriodd y coed 23 pwynt. Mae sustem TEMPO yn nodi bod unrhyw goeden/coed sydd yn sgorio 16 pwynt neu fwy yn teilyngu cael eu diogelu.

1.4 Er bod y safle o fewn ardal cadwraeth, ac felly yn rhoddi elfen o ddiogelwch i'r coed yn barod, penderfynwyd cyhoeddi gorchymyn diogelu coed dros dro yn yr achos yma gan yr ystyrir bod y coed â'r coetir o werth mwynderol uchel sydd yn weladwy iawn o fewn y drefwedd, a hefyd yn ffurfio nodwedd bwysig o fewn canol y dref.

1.5 Mae’r Cyngor o’r farn bod y coed â'r coetir o werth mwynderol uchel, ac yn teilyngu gwarchodaeth benodol, yn enwedig gan bod bygythiad uniongyrchol i’r coed oherwydd gwaith datblygu bwriedig o fewn ardal y parc. Hefyd, mae tystiolaeth ym meddiant y Cyngor sydd yn awgrymu bod gwaith eisoes wedi ei wneud i goed o fewn y safle heb y caniatâd ymlaen llaw angenrheidiol, ac nad oedd unrhyw rybudd wedi ei gyflwyno i'r Cyngor yn unol â deddfwriaeth berthnasol a fyddai yn osgoi yr angen am ganiatâd ffurfiol neu gymeradwyaeth ymlaen llaw.

2. **LLEOLIAD A DISGRIFIAD:**

2.1 Mae'r coed a'r coetir sydd yn destun y gorchymyn diogelu coed dros dro presennol wedi eu lleoli i'r gogledd-orllewin o Ffordd Deiniol, ac i'r gorllewin o Lon Cariadon yng nghanol dinas Bangor. Mae canolfan Pontio yn gorwedd i'r de-orllewin o leoliad y safle, ac mae Neuadd Rathbone ac adeiladu eraill y brifysgol yn gorwedd i'r gogledd-orllewin. Mae'r cyfan o'r tir y mae'r gorchymyn dros dro wedi ei osod arno ym mherchnogaeth y brifysgol.

2.2 Mae'r ddwy goeden unigol sydd yn destun y gorchymyn yn goeden ywen a choeden pisgwydden. Mae'r 5 grŵp o goed yn cynnwys y canlynol: -

- Grŵp 1 - Pisgwydden, Sycamorwydden, Oestrwydden, Masarnen Leiaf, 3 Ffawydd, Masarnen Norwy. 5 Ceirios, 3 Celyn
- Grŵp 2 - 19 Derw, 9 Poplys Ddu, 4 Planwydd, 4 Bedw, 2 Masarnen Leiaf, 3 Derw Goch, Ffawydden, Pisgwydden, Llwyfen, Sycamorwydden, Aethnen, Ceiriosen
- Grŵp 3 - 4 Derw y Gelyn, 3 Pinwydd yr Alban, 10 Ffawydd, Sycamorwydden, 3 Derw, 14 Bedw, Pisgwydden
- Grŵp 4 - 4 Pisgwydd, Derwen, Bedwen
- Grŵp 5 - 5 Pisgwydd, 2 Ceirios, 7 Derw, 7 Castanwydden, 2 Bedw, 6 Ffawydd

2.3 Mae coetir W1 yn cynnwys cymysgedd o goed derw, sycamorwydden, ffawydd, ceirios, ynn, yw a chelyn.

**3. SYLWADAU ALLANOL:**

3.1 Yn unol â gofynion statudol ymgynghorwyd â'r Aelod Lleol, Cyngor Dinas Bangor, trigolion cyfagos â'r perchennog tir yn dilyn cyhoeddi'r gorchymyn dros dro a dangoswyd rhybuddion o amgylch y safle a rhoddwyd 28 diwrnod iddynt ymateb. Ni dderbyniwyd ymateb gan Cyngor Dinas Bangor na'r aelodau sydd yn cynrychioli ward Canol Dinas.

3.2 Ni dderbyniwyd ymateb o fewn y cyfnod hysbysu statudol a ddaeth i ben ar y 29 Rhagfyr 2023, ac nid oes unrhyw sylwadau gan drigolion cyfagos wedi eu derbyn ar ôl y dyddiad hwn ychwaith.

3.3 Derbyniwyd gwrthwynebiad i gyhoeddi'r Gorchymyn Diogelu Coed Dros Dro gan Brifysgol Bangor ar y 20 Rhagfyr 2023 am y rhesymau canlynol:

- *Mae'r rhesymau am wneud y Gorchymyn yn nodi fod yna fygythiad uniongyrchol i'r coed oherwydd y gwaith datblygu arfaethedig. Nodir fan hyn na wyddys am unrhyw fygythiad uniongyrchol yn sgil gwaith arfaethedig Parc y Coleg. Os yw'r sylwad hwn yn cyfeirio at brosiect datblygu Parc y Coleg, sydd wedi'i gefnogi gan Gyngor Gwynedd a Thrawsnewid Trefi yna tynnir sylw at y ffaith fod hyn yn cael ei ystyried ar gyfer Cynllunio ac nad yw ond yn cynnwys ychydig o waith ar y coed, os o gwbl. Os yw'r gwrthwynebiad hwn yn cyfeirio at gynllun 'Parth Natur' Ffyniant Bro, sydd hefyd wedi'i gefnogi gan Gyngor Gwynedd a Ffyniant Bro ac sy'n ceisio gwella gwerth mwynderol y coetir, yna tynnir sylw at y ffaith fod y cynllun hwn mewn gwirionedd yn ceisio gwella ecoleg y coetir a'i gysylltu â gofodau gwyrdd eraill ym Mangor, ac yn sicr, nid oes unrhyw gynlluniau i dorri unrhyw goed fel y diffinnir: >75 mm pan fesurir ar uchder o 1.5 metr uwchben lefel y ddaear ar y brif goes, yn amodol ar arolwg diogelwch coed pellach. Pe bai yna unrhyw argymhellion o'r fath, yna byddai'r weithred hon eisoes wedi'i chyfyngu trwy'r statws Cadwraeth.*

- *Ceisia'r Gorchymyn dros dro warchod coed sydd eisoes wedi'u diogelu gan yr Ardal Gadwraeth ac mae felly'n ychwanegu lefel arall o fiwrocratiaeth yn ddiangen.*

3.4 Nodir hefyd oherwydd bod y safle o fewn ardal cadwraeth ddynodedig, ac fel cydnabyddiaeth o fwriad y brifysgol i wella'r safle ar gyfer natur a phobl Bangor, na ddylai'r gorchymyn gael ei gadarnhau yn ei ffurf bresennol. Cysyniad yr ardal natur yw creu llecyn tawel i bobl a grwpiau i ymgysylltu a natur, tra ond rai camau oddi wrth brysurdeb canol y ddinas. Mae arian wedi ei gael gan yr UK Shared Prosperity Fund i alluogi y brifysgol i agor allan y tir, ac annog defnydd ohono, er mwyn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol posibl, a gwneud y parc yn ofod ble gall pobl gerdded a mwynhau tawelwch mae natur yn ei gynnig. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy sefydlu llwybrau natur sympathetig o fewn y coetir a'r safle yn gyffredinol, gan wella llwybrau a chysylltu agweddau o'r safle, gwella amrywiaeth a strwythur y coetir presennol, a datblygu gwlyptir bychan er budd bywyd gwyllt a phlanhigion. Bwriedir hefyd dehongli y coetir i ddefnyddwyr drwy osod byrddau dehongli ac arwyddion gwybodaeth o amgylch y safle. Cwestiynir hefyd pa fygythiad sydd i'r gwaith bwriedig a fyddai yn gwarantu gosod gorchymyn diogelu dros dro ar y coed a'r coetir.

**4. ASESIAD:**

4.1 Gwneir gorchmynion diogelu os yw'n ymddangos i'r Awdurdod Cynllunio Lleol y byddai yn amserol er budd amwynder i wneud darpariaeth ar gyfer diogelu coed neu goedlannau yn ei ardal. Mae amlygrwydd y coed i'r cyhoedd yn gymorth i'r Awdurdod Cynllunio Lleol asesu os yw eu hardrawiad ar yr amgylchedd lleol yn sylweddol. Serch hynny, nid yw amlygrwydd coed ynddo ei hun yn ddigonol i warantu gorchymyn diogelu. Mae angen asesu pwysigrwydd maint a ffurf y coed eu hunain, a'u potensial mwynderol i'r dyfodol. Yn ogystal, dylid ystyried arwyddocâd y

coed yn eu hamgylchedd lleol. Os credir bod risg i goed gael eu torri lawr, neu eu tocio mewn ffyrdd a all gael ardrawiad sylweddol ar amwynder ardal, yna byddai yn amserol cyhoeddi gorchymyn diogelu. Nid oes angen i'r risg fod yn un dybryd.

4.2 Yn sgil derbyn gwrthwynebiad i'r gorchymyn diogelu coed dros dro, cysylltwyd â Gwasanaeth Bioamrywiaeth y Cyngor am eu sylwadau. Derbyniwyd y sylwadau canlynol mewn ymateb:

1. Nid yw coeden wedi ei diogelu o ganlyniad i'w lleoliad o fewn ardal cadwraeth. Mae deddfwriaeth bresennol yn golygu bod angen rhoddi rhybudd o 6 wythnos i'r awdurdod cynllunio lleol cyn ymgymryd ag unrhyw waith i goeden neu goed o fewn ardal o'r fath. Nid yw'r Cyngor yn gallu gwrthod neu ganiatáu gwaith o'r fath. Yn hytrach, mae'r rhybudd yn rhoddi cyfle i'r Cyngor ystyried os oes angen ystyried cyflwyno Gorchymyn Diogelu Coed ffurfiol yn yr achos er diogelu unrhyw goed, os yw yn briodol ystyried gwneud hynny er budd amwynder. Pan wneir hynny, bydd angen cyflwyno cais yn lle rhybudd ar gyfer ymgymryd â gwaith i unrhyw goeden/goed, ac ni ystyrir bod hynny yn creu unrhyw haenan diangen ychwanegol o fiwrocratiaeth;
2. Gwnaethpwyd asesiad TEMPO safonol (asesiad amwynder) yn achos Parc y Coleg, a chadarnhawyd bod y coed o werth mwynderol digonol i warantu eu diogelu gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, unrhyw fygythiad rhagweledig i'r coed gan ddatblygiad. Mae'r rhesymeg am y gorchymyn yn cynnwys gwelediad a gwerthfawrogiad cyhoeddus perthynol, oes dargadwedd tybiedig y coed (eu cyflwr); eu cydlyniad gyda'r dirwedd, presenoldeb coed hynafol, ffurf coedyddiaeth da, pwysigrwydd ecolegol a hanesyddol (deallir bod nifer o'r coed wedi eu plannu gan yr adran coedwigaeth y brifysgol yn y 1900 fel rhan o brosiectau ymchwil arloesol. Fel a nodwyd yn y gwrthwynebiad i'r gorchymyn dros dro, mae bwriad gan y brifysgol i agor y coetir, a gellir dehongli hyn fel clirio'r ddaear o amgylch coed aeddfed, a all arwain at golli'r coetir o fewn y parc yn y dyfodol. Nid yw gorchymyn diogelu coed yn atal gallu ymgymryd â gwaith, ond yn hytrach yn galluogi y Cyngor i reoli gwaith er sicrhau ei fod yn cael ei wneud mewn ffordd sensitif a phriodol drwy'r broses cynllunio, â chysylltiad gyda arbenigwr ecolegol a choedwigaeth y Cyngor. Bydd y gorchymyn yn gweithredu i sicrhau bod gwelliannau bwriedig i amwynder ac ecoleg yn cyrraedd eu targedau dymunol.
3. Nid yw coeden wedi ei ddiffinio mewn deddfwriaeth gorchymyn diogelu coed fel mae wedi ei wneud mewn deddfwriaeth yn ymwneud ac ardaloedd cadwraeth. Mae hyn yn galluogi hirhoedledd i'r coetir drwy adfywio naturiol. Pwrpas diogelu'r coetir yw sicrhau bod y coetir ei hun yn gallu dibynnu ar adfywio a phlannu newydd i'r dyfodol.
4. Mae rhestr o goed a grwpiau penodol yn ogystal â choetir penodol yn y gorchymyn, ac felly ni ellir cytuno bod y gorchymyn ei hun yn '*all-encompassing*'.

## 5. CASGLIADAU:

5.1 Mae'n bwysig nodi nad yw gosod gorchymyn ar goeden neu goed yn atal y gallu i ymgymryd ag unrhyw waith i'r coed hynny. Yn hytrach, mae gosod gorchymyn yn ffordd effeithiol o sicrhau nad oes gwaith dinistrio neu waith diangen yn cael ei wneud yn uniongyrchol i, neu yn agos at, goed sydd yn gwneud cyfraniad pwysig i'w hamgylchedd lleol. Fel y gwelir o gynnwys yr adroddiad hwn, mae'r coed â'r coetir wedi sgorio yn sylweddol uwch na'r rhicyn prawf a nodir dan y drefn TEMPO, ac maent yn llwyr haeddu eu diogelu drwy orchymyn ffurfiol.

5.2 Tra cydnabyddir gwrthwynebiad y brifysgol i gyhoeddi gorchymyn coed dros dro yn yr achos hwn, ystyrir bod gwerth mwynderol sylweddol i'r coed, sydd yn haeddu elfen o ddiogelwch tu hwnt i'w lleoliad o fewn ardal cadwraeth ddynodedig yn unig. Ni ddylai gorchymyn o'r fath gael unrhyw effaith ar y gallu i ystyried cynllun ail-ddatblygu ardal y parc, ond fe fydd yn angenrheidiol ystyried pwysigrwydd a bodolaeth y coed fel rhan o gynllun ail-ddatblygu posib. Deallir bod trafodaethau yn parhau cydrhwng y brifysgol â Gwasanaeth Bioamrywiaeth y Cyngor

i geisio sicrhau cynllun fydd yn bodloni dyheadau'r brifysgol ar gyfer y parc, ond a fydd hefyd yn sicrhau diogelwch a pharhad bodolaeth y coed i'r cenedlaethau i ddod.

## 6. Y BROSES GADARNHAU:

6.1 Mae 4 dewis i’r Pwyllgor ar ôl ystyried yr adroddiad hwn a’r gwrthwynebiadau a sylwadau a dderbyniwyd, sef:

1. Cadarnhau'r gorchymyn fel y mae, heb newidiadau
2. Cadarnhau gyda newidiadau
3. Peidio cadarnhau
4. Cynnal ymchwiliad cyhoeddus.

6.2 Yn dilyn ystyried y cyfan o’r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn, argymhellir bod y Pwyllgor yn dewis opsiwn (i) uchod, sef cadarnhau’r gorchymyn heb newidiadau.

## 7. ARGYMHELLIAD:

7.1 Cadarnhau’r gorchymyn heb newidiadau.